



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Themau Allweddol sydd wedi dod i'r Amlwg o'r Ymgynghoriad ac Ymateb Llywodraeth Cymru

Canllawiau ar gyfer Comisiynu gwasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng nghymru

Themau allweddol sydd wedi dod i'r amlwg o'r ymgynghoriad ac ymateb Llywodraeth Cymru

Rhif	Thema allweddol	Sylwadau	Ymateb Llywodraeth Cymru
	Rhagnodi/cyfarwyddo neu hyblygrwydd	Roedd gwahaniaeth barn ynghylch a ddylai'r canllawiau fod yn fwy rhagnodol gyda iaith gryfach a sancsiynau clir, neu a ddylid caniatáu mwy o hyblygrwydd i adeiladu ar yr arfer da presennol a gweithio mewn ffyrdd sy'n manteisio ar gryfderau gwahanol.	Bydd rhywfaint o'r iaith yn cael ei chryfhau er mwyn cyfleu negeseuon clir am ddisgwyliadau a sicrhau mwy o gysondeb. Fodd bynnag, caniateir hyblygrwydd lle bo manteision amlwg i hyn. Ni ellir bod yn fwy cyfarwyddol ym mhob maes, er enghraifft mewn perthynas â strwythur byrddau comisiynu rhanbarthol lle mae'r cyfranogwyr a wahoddir yn cynrychioli cyrff statudol nad ydynt wedi'i datganoli.
	Cyfarwyddyd ymarferol ar weithredu a syniadau ar gyfer arloesi	Roedd rhai ymatebwyr eisiau cyfarwyddyd ymarferol clir ar sut i weithredu prosesau comisiynu rhanbarthol a syniadau ar gyfer arloesi.	Mae Pecyn Cymorth Lloyds a dogfennau eraill y cyfeirir atynt yn y canllawiau yn darparu dulliau gweithredu ymarferol. Mae arloesi'n deillio o waith rheini sy'n gweithio ar lawr gwlad ac mae Llywodraeth Cymru'n croesawu syniadau newydd a chyfleoedd i'w rhannu ar draws Cymru.
	Strwythurau llywodraethu a chyllid	Mae strwythurau llywodraethu a chyllid ar draws rhanbarthau, ar draws cynlluniau grant ac ar draws sefydliadau gwahanol, a rhwng darpariaeth ddatganoledig a heb ei ddatganoli, yn ychwanegu cymhlethdod ac yn creu rhwystrau.	Rydym yn cydnabod y cymhlethdodau y mae hyn yn eu hachosi. Rydym yn anelu at leihau'r cymhlethdod sy'n gysylltiedig â chyfundrefnau cyllid drwy, er enghraifft, uno grantiau yn yr un modd â'r grant Ymyrraeth Gynnar, Atal Problemau a Chefnogaeth er mwyn lleihau'r gofynion adrodd a safoni

			canlyniadau.
	Gwahaniaethu rhwng defnyddwyr gwasanaethau	Mae angen mwy o bwyslais ar anghenion defnyddwyr gwahanol, megis trais domestig / trais rhywiol / dioddefwyr sy'n ddynion / defnyddwyr o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig / plant / pobl LGBT+. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod yn rhaid i ni sicrhau bod y dadansoddiad o anghenion wir yn llywio'r broses gomisiynu.	Byddwn yn nodi'n fwy clir yr angen i ddiwallu anghenion gwahanol grwpiau o ddefnyddwyr, yn enwedig y rheini sydd â nodweddion gwarchoddedig yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010. Byddwn yn cryfhau'r cysylltiadau rhwng cynnal y dadansoddiad o anghenion a chomisiynu gwasanaethau i ddiwallu'r anghenion hyn.
	Cyllid:	Nid yw cydgysylltu gwaith ar draws rhanbarthau yn niwtral o ran costau. Roedd barn wahanol am sut y dylid talu'r costau hyn.	Mae awdurdodau lleol yn defnyddio eu grant VAWDASV i ariannu cydgysylltwyr rhanbarthol. Bydd yr arbedion a geir o weithio ar draws rhanbarthau hefyd yn helpu i dalu'r costau hyn. Mae'r rhanbarthau'n rhydd i wneud trefniadau eraill, o fewn rheswm, i gefnogi'r gwaith hwn ymhellach.
	Darparwyr arbenigol bach	Roedd bron pob ymatebydd yn bryderus y gallai arbenigedd a phrofiad darparwyr arbenigol bach, ac weithiau lleol, gael eu colli.	Mae'r canllawiau'n cyfarwyddo'r comisiynwyr i warchod darparwyr arbenigol bach lle bo'n briodol. Byddwn yn pwysleisio'r angen i sicrhau bod hyn yn digwydd.
	Amser i gyflawni:	Nid oedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn credu bod comisiynu rhanbarthol llawn yn bosibl o fewn yr amser a nodwyd.	Rydym yn cydnabod bod gwahanol ranbarthau ar bwyntiau gwahanol ar hyd y llwybr i ranbartholi llawn. Nid

			<p>ydyd yn disgwyl i hyn gael ei gyflawni erbyn Ebrill 2019, ond byddwn yn disgwyl cynnydd da tuag at hyn. Byddwn yn caniatáu hyblygrwydd o ran amser ond byddwn yn monitro hyn i sicrhau bod y momentwm yn cael ei gynnal.</p>
--	--	--	---